**Rhif: WG39273**

# Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

**Teitl y cynnig:**

Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022

**Adran:**

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Gweinidog cyfrifol:**

Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC

**Dyddiad Dechrau:**

Tachwedd 2019

**Cyfeiriad e-bost:**

substance.misuse@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83933-572-3

# Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

**Cefndir**

Mae ein Rhaglen Lywodraethu, *‘Symud Cymru Ymlaen’*, yn amlinellu'r ymrwymiadau i lywio gwelliannau a gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pawb yng Nghymru. Mae *‘Ffyniant i bawb: y Strategaeth Genedlaethol’* yn gosod yr ymrwymiadau hynny mewn cyd-destun hirdymor, ac yn nodi sut byddant yn cael eu cyflawni drwy gyfuno ymdrechion sector cyhoeddus cyfan Cymru.

Drwy gymryd camau sylweddol i newid ein dull gweithredu o drin i atal, a chanolbwyntio ar wella iechyd a llesiant unigolion a'u teuluoedd, rydym yn cefnogi amcanion llesiant y Llywodraeth yn '*Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol’.* Bydd ein dull traws lywodraethol hefyd yn cynnwys cyfrannu at feysydd blaenoriaeth y Llywodraeth, fel y Blynyddoedd Cynnar, Tai a Gwell Iechyd Meddwl gan ein helpu i gyflawni'r nod o ffyniant i bawb.

Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ‘*Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol’.* Mae'r cynllun yn nodi'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'r deg egwyddor gynllunio genedlaethol. Mae'r weledigaeth a'r egwyddorion mor berthnasol i'r sector camddefnyddio sylweddau ag y maen nhw i unrhyw faes arall. Mae ein hagenda ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn gofyn i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd, ochr yn ochr â phartneriaid eraill, i roi'r help mwyaf priodol i unigolyn, ar sail ei anghenion a'i amgylchiadau.

Mae *'Cymru Iachach'* yn sefydlu dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol, gan amlinellu system 'lesol' sydd â'r nod o gynorthwyo a rhagweld anghenion iechyd, atal salwch a lleihau effeithiau iechyd gwael ac anghydraddoldeb. Cydnabyddir bod gan ofal sylfaenol, fel pwynt cyswllt cyntaf y rhan fwyaf o ddinasyddion sy’n cael mynediad at wasanaethau iechyd, rôl allweddol mewn cyflwyno cymaint â phosibl o gyfleoedd i atal a hunanreoli, gan gynnwys cyfleoedd o ran camddefnyddio sylweddau a rheoli meddyginiaethau.

Gwyddom fod angen gwneud mwy i gefnogi pobl a'u helpu i gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y rhai hynny y mae eu bywydau wedi’u heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Mae'r data diweddaraf ynglŷn ag alcohol yn dangos bod 535 o farwolaethau cysylltiedig ag alcohol yn 2018, sy'n lleihad bychan o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ond roedd 208 o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau yn 2018, sy'n gynnydd o 185 yn 2017.

Felly, mae'r camau gweithredu yn y *'Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022'* yn ymateb i'r hyn a ddywedwyd wrthym drwy'r gwerthusiad o'r strategaeth flaenorol ac adolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae hefyd yn ystyried yr adborth a gafwyd drwy'r broses ymgysylltu drylwyr a gynhaliwyd gyda darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys pobl ifanc, ynglŷn â'r prif flaenoriaethau ar gyfer camddefnyddio sylweddau.

Mae'r cynllun cyflawni yn ymdrin â gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae ein gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn canolbwyntio ar y dinesydd, gan fabwysiadu dull iechyd cyhoeddus seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar leihau niwed, atal a thriniaeth, gan sicrhau bod unigolyn yn cadw'n iach, yn lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ac yn cynnal adferiad.

**Atal**

Mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio atal fel gweithio mewn partneriaeth i gydgynhyrchu'r canlyniadau gorau posibl, gan ddefnyddio'r cryfderau a'r asedau sydd gan bobl a llefydd i'w cyfrannu. Fel gyda'r strategaeth camddefnyddio sylweddau flaenorol a'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig, mae atal yn parhau i fod yn ffocws allweddol ar gyfer unigolion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Mae Nod Allweddol 1 yn y tabl o gamau gweithredu yn canolbwyntio’n benodol ar atal, ond mae elfen ataliol i sawl un o'r camau gweithredu yn nodau eraill y cynllun hefyd.

Dull gweithredu sy'n lleihau niwed yw ceisio lleihau'r risgiau perthnasol sy'n gysylltiedig â defnyddio/camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae lleihau niwed yn parhau i fod yn ganolog i ddull gweithredu’r cynllun cyflawni hwn. Gwneir hyn drwy amrywiol fesurau fel torri ar y cyfarpar chwistrellu sy'n cael ei rannu, rhoi cymorth i bobl roi'r gorau i chwistrellu, ymyriadau i leihau marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau a darparu ystod o driniaethau ffarmacoleg a seicogymdeithasol ar gyfer cyffuriau ac alcohol. Mae adferiad ac ymwrthod hefyd yn rhan o'r daith i leihau niwed, ac nid ydynt yn cyd-fynd.

Gwnaethom weithio'n agos â rhanddeiliaid dros oes strategaeth 2008-18 i sefydlu a chyflenwi amrediad o fentrau lleihau niwed ac mae hyn yn wir ar gyfer cynllun cyflawni 2019-22 hefyd.

**Integreiddio**

Yn ystod ei oes, bydd y cynllun cyflawni yn darparu ffocws ar gyfer sicrhau bod camddefnyddio sylweddau yn cael ei ymwreiddio ar draws meysydd polisi eraill Llywodraeth Cymru, yn enwedig wrth ganolbwyntio mwy ar atal. Er enghraifft, byddwn yn parhau i gydweithio’n agos â meysydd Addysg, Plant a Theuluoedd, Cyflogadwyedd, Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol, Trechu Tlodi, a Throsedd a Chyfiawnder, er mwyn cryfhau'r cysylltiadau â'r meysydd hyn fel bod llai o bobl yn cael eu denu i gamddefnyddio sylweddau yn y lle cyntaf. Byddwn yn sicrhau ein bod ni'n darparu triniaeth integredig a hygyrch i'r rhai sydd yn camddefnyddio sylweddau gan arwain at adferiad. Mae camau gweithredu penodol wedi’u nodi yn y cynllun, sy'n amlygu'r cyfraniad pwysig y gall adrannau eraill o'r llywodraeth, gan gynnwys meysydd heb eu datganoli, ei wneud i wella canlyniadau camddefnyddio sylweddau i unigolion drwy eu polisïau a'u rhaglenni. Er bod gwasanaethau iechyd wedi’u cynllunio i ymateb i anghenion unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau, mae ysgogiadau eraill y tu allan i faes iechyd sy'n hanfodol i wella iechyd a llesiant unigolyn.

**Cydweithio**

Bydd ein gwaith gyda Byrddau Cynllunio Ardal yn sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y boblogaeth, a bod y dangosyddion perfformiad allweddol yn parhau i gael eu cyflawni a'u gwella. I gyflawni hyn, byddwn yn sicrhau bod ein hymyriadau yn 'gydgysylltiedig' ar draws y llywodraeth, gan gydnabod bod anghenion unigolion yn mynd y tu hwnt i'w defnydd o sylweddau, drwy ddatblygu dull gweithredu unigolyn cyfan i'w cefnogi.

Er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun cyflawni hwn, byddwn yn parhau â'n gwaith o gefnogi gwasanaethau camddefnyddio sylweddau drwy ein Byrddau Cynllunio Ardal a Byrddau Iechyd Lleol. Mae’r Byrddau Cynllunio Ardal wedi bod yn

allweddol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, a bydd hyn yn parhau.

Mae gwaith partneriaeth da yn hanfodol os ydym am gynnig y cymorth gorau posibl i unigolion a chymunedau. Gan ystyried y datblygiadau diweddar ym maes partneriaethau lleol a rhanbarthol, fel sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, byddwn yn adolygu'r cydberthnasau partneriaeth ac yn ystyried sut y gallwn gefnogi Byrddau Cynllunio Ardal i weithredu'n dda fel hyn. Rydym yn sylweddoli bod annog Byrddau Cynllunio Ardal i weithio'n agos gyda phartneriaethau a strwythurau eraill, fel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac eraill, yn elfen allweddol o gyflenwi gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, er mwyn darparu'r cymorth gorau posibl i'r unigolyn a'r gymuned ehangach.

Mae cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu'r cynllun hwn, a gwyddom y bydd parhau i gynnwys pobl yn allweddol i gyflawni'r camau gweithredu o fewn y cynllun hwn yn llwyddiannus. Mae'r cynllun yn ceisio sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau. Ledled Cymru, mae'r saith Bwrdd Cynllunio Ardal yn gyfrifol am asesu'r angen, a chomisiynu a monitro cyflenwad gwasanaethau camddefnyddio sylweddau o fewn eu hardaloedd, gan ddefnyddio'r cyllid a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru.

**Costau ac Arbedion**

Rydym yn buddsoddi bron i £53 miliwn yn flynyddol i gyflawni ein hymrwymiadau ar yr agenda hon.

**Mecanwaith**

Nid oes deddfwriaeth yn cael ei chynnig fel rhan o'r cynllun hwn ac felly nid oes angen asesiad effaith rheoleiddiol.

**Casgliad**

1. Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ymarfer meithrin cysylltiadau ac ymgynghoriad â'r rhanddeiliaid allweddol sydd ynghlwm â chyflawni amcanion y cynllun hwn. Roedd cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn hanfodol i ddarparu'r cynllun blaenorol ac mae wedi parhau i gyfrannu at ddatblygu cynllun cyflawni 2019-22.

Cyn yr ymgynghoriad ffurfiol, cynhaliodd swyddogion ddigwyddiadau ymgysylltu (a oedd yn cynnwys darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau) yng Nghaerdydd, Casnewydd, Llanelli a Llandudno. Cynhaliwyd digwyddiad ychwanegol ym Mhowys ar gyfer y Bwrdd Cynllunio Ardal a defnyddwyr gwasanaethau, ynghyd â digwyddiad penodol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn ardal Cwm Taf. Hefyd, cynhaliwyd digwyddiad penodol i bobl ifanc yn y Gorllewin. Roedd pob un o’r digwyddiadau yn gynhyrchiol iawn ac yn llawn gwybodaeth ac roedd llawer o bobl yn bresennol ynddynt (dros 400 o bobl i gyd, ac roedd tua 150 o’r rhain yn ddefnyddwyr gwasanaethau). Yn ystod y digwyddiadau, casglodd y swyddogion amrywiaeth o safbwyntiau a sylwadau, a chawsant eu hadlewyrchu cymaint â phosibl yn y cynllun drafft yr ymgynghorwyd yn ei gylch wedyn. Yn benodol, roedd y digwyddiadau ymgysylltu yn rhoi cadarnhad a sicrwydd bod y meysydd a nodwyd fel blaenoriaethau posibl (fel yr amlygwyd yn y gwerthusiad o’r strategaeth flaenorol ac adolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru), ar y cyfan, yn gywir.

Cynhaliwyd digwyddiadau cyn ymgynghori yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2019. Cafodd y digwyddiadau hyn eu cynnal yn y lleoliadau canlynol:

- Caerdydd - 14 Chwefror
- Casnewydd - 15 Chwefror
- Gogledd Cymru - 21 Chwefror
- Llanelli - 22 Chwefror
- Digwyddiad i bobl ifanc yn Fferm Folly - 6 Mawrth

Rhannwyd y digwyddiadau cyn ymgynghori yn sesiynau bore a phrynhawn a oedd yn cynnwys darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau a chomisiynwyr a defnyddwyr gwasanaethau, yn y drefn honno.

## 2. Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn rhai cadarnhaol a negyddol?

Mae'r cynllun cyflawni cyfan ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn ymroddedig i wella canlyniadau ar gyfer pawb. Mae'n rhoi cyfle cyfartal i bawb sy'n cael gwasanaethau ar gyfer camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys aelodau'r teulu a'r gymdeithas a'r gymuned ehangach.

Yn bwysicaf oll, mae'n ymdrin â materion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau mewn modd ataliol, gan sicrhau bod lleihau niwed yn ganolog i'w ddull gweithredu. Mae'n ceisio cael effaith gadarnhaol ar iechyd, addysg, cyflogadwyedd ac adferiad.

Nid yw'r cynigion polisi a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori yn cael unrhyw effaith ar nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol na'r ffyrdd o weithio. Fodd bynnag, maent wedi'u datblygu yn unol â'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Asesiad Effaith Integredig wedi nodi unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â llesiant cymdeithasol pobl a chymunedau yng Nghymru neu lesiant diwylliannol Cymru neu'r Gymraeg. Nid yw chwaith wedi nodi unrhyw faterion ynghylch llesiant busnesau a'r cyhoedd, yr Amgylchedd, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn neu'r agenda Trechu Tlodi.

3. Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu cyfle unigryw i gydlynu camau gweithredu amlsector effeithiol ar effeithiau trychinebus camddefnyddio sylweddau. Mae'r Ddeddf yn gosod cyfrifoldebau statudol ar gyrff sector cyhoeddus i weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod yr anghenion presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu anghenion llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r achos i fynd i'r afael â'r niweidiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yn un grymus ac yn arwain at effaith gadarnhaol ar lesiant yn ogystal ag economi ehangach Cymru. Mae cyfle gwirioneddol i ddefnyddio'r pwerau a bennir yn y Ddeddf i greu newid sylweddol. Mae hyn hefyd yn cynnwys iechyd ataliol fel nodwedd graidd a bydd cyflawni'r cynllun yn cymell integreiddio, cydweithio a chynhwysiad ymysg partneriaid a'r cymunedau eu hunain.

- yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd Llywodraeth Cymru yn creu cysylltiadau gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid allweddol wrth roi'r Cynllun ar waith. Yn ystod cyfnod y cynllun bydd cyfle i asesu newid a risg. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod swyddogion yn monitro cynnydd y cynllun a bydd y cynnydd hwnnw yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar Gamddefnyddio Sylweddau. Bydd yr asesiad o unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael ei ystyried gan fynd i'r afael ag unrhyw newidiadau ac effeithiau negyddol.

4. Sut caiff effaith y cynnig ei fonitro a'i werthuso wrth i'r broses symud yn ei blaen a phan gaiff ei chwblhau?

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn monitro darpariaeth y camau gweithredu drwy gydol oes y cynllun. Os yw camau gweithredu yn gyfrifoldeb ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, bydd hyn yn cael ei wneud drwy'r gwaith monitro a wneir gyda nhw.

Bydd y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar Gamddefnyddio Sylweddau yn goruchwylio darpariaeth y camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22. Bydd y Bwrdd hefyd yn arwain ac yn monitro'r cynnydd, ac yn hwyluso cydlynu'r dull trawsbynciol o weithio sydd ei angen ar draws Llywodraeth Cymru, Asiantaethau Statudol, y Trydydd Sector a'r Sector Annibynnol. Bydd bwrdd rhaglen mewnol yn cael ei sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru a bydd hyn yn hysbysu'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol am y cynnydd a wneir.